Bagloriaeth Cymru Newydd

Cyswlltwch â: Mrs A Ebenezer



Beth yw Bagloriaeth Cymru?

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyffrous i fyfyrwyr 14 i 19 oed yng Nghymru. Mae'n gymhwyster hyblyg a chynhwysol sy'n ategu dewisiadau dysgwyr o ran TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Prif ddiben y cwrs yw datblygu ac asesu sgiliau hanfodol fel llythrennedd, rhifedd, llythrennedd ddigidol, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi ac effeithiolrwydd personol.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnwys:

◊ **Tystysgrif yr Her Sgiliau** - sy'n cynnwys pedwar cydran:

- Proseiect Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her Cymunedol

◊ **TGAU**

- Cymraeg iaith neu Saesneg Iaith
- Mathemateg - Rhifedd

◊ **Cymwysterau ategol**- cyrsiau/rhaglenni sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd e.e. Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU), TGAU Galwedigaethol, Uwch Gyfrannol (UG) / Safon Uwch (lefel A), BTEC.

Beth yw strwythur y cwrs a'r dulliau asesu?

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Uwch Cymru, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r:

◊ **Tystysgrif yr Her Sgiliau** - Rhaid I ddysgwyr gyflawni'r pedair cydran er mwyn cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau- y Prosiect Unigol a'r tair Her, gyda Llwyddiant ar lefel 3 o leiaf ym mhob un.

◊ **TGAU** - Cymraeg iaith neu Saesneg Iaith ar raddau A*- C
- Mathemateg - Rhifedd ar raddau A*- C

◊ **Cymwysterau ategol** - Rhaid ennill o leiaf dwy safon Uwch ar raddau A*- E; neu cymwysterau cyfatebol tra'n dilyn y rhaglen Bagloriaeth Cymru.

Mae'r Bagloriaeth Cymru yn gyfwerth ag un lefel A, ar raddfa A*- E.